

PANEL PENODIADAU'R PWYLLGOR SAFONAU

11 Chwefror 2020

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Mrs D Clements, K Doolin, P Harries a S Yelland, a Mr D Evans (Aelod Lleyg).

Roedd Mr Michael Kent, y Swyddog Monitro, hefyd yn bresennol yn y cyfarfod mewn rôl ymgynghorol llywodraethu.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am - 12:00pm)

1. Penodi Cadeirydd

PENDERFYNWYD penodi'r Cyngorydd P Harries yn Gadeirydd y cyfarfod.

2. Datgelu buddiant

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

3. Gwahardd y cyhoedd

PENDERFYNWYD gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod gan fod gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

4. Penodi Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau

Atgoffwyd y Panel gan y Swyddog Monitro fod dwy swydd wag i Aelodau Annibynnol wasanaethu ar Bwyllgor Safonau Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roedd chwe ymgeisydd ar y rhestr fer i gael cyfweliad i lenwi'r swyddi gwag hyn, ac roedd tri ymgeisydd eisoes wedi'u cyfweld ar 28 Ionawr 2020, a'r tri arall yn cael eu cyfweld y diwrnod hwnnw.

Yn dilyn cyfweiliadau'r tri ymgeisydd a wahoddwyd y diwrnod hwnnw, trafododd y Panel bob un o'r chwe ymgeisydd a wahoddwyd am gyfweliad.

PENDERFYNWYD, yn unol â Pharagraff 16 o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 a Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006, y dylid argymhell Awdurdod y Parc Cenedlaethol i benodi'r unigolion a ganlyn yn Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o 5 mlynedd o 2 Ebrill 2020 ymlaen, yn ddarostyngedig i'r telerau ac amodau presennol fel y'u cymeradwywyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2006:

Ms Wendy Taylor, a
Mr Phillip Davies.

